ADNODD CYFYNGEDIG

(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL BLYNYDDOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN

AR 31 MAWRTH 2024

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

GWYBODAETH AM Y CWMNI

Cyfarwyddwyr	Emyr George (Penodwyd 8 Ionawr 2024) Owain Gethin Davies (Cadeirydd) Huw Lloyd Jones Sioned Roberts Lucy Thomas Nicola Wood Lesley Bush
Rhif Cwmni	14227941
Swyddfa Gofrestredig	D/O Darwin Gray LLP Tŷ Avalon 9 Cathedral Road Caerdydd CF11 9HA
Cyfrifwyr	Azets Tŷ Derw Lime Tree Court Parc Busnes Porth Caerdydd Cymru CF23 8AB

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

CYNNWYS

	Tudalen
Datganiad o atebolrwydd a chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Adnodd	1
Adroddiad Strategol	2 - 3
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	4 - 6
Datganiad llywodraethu corfforaethol	7 - 8
Adroddiad y Cyfrifwyr	9
Y datganiad incwm	10
Datganiad o sefyllfa ariannol	11
Datganiad o newidiadau mewn ecwiti	12
Datganiad llif arian	13
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	14 - 20

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

DATGANIAD O ATEBOLRWYDD A CHYFRIFOLDEBAU PRIF WEITHREDWR ADNODD CYF FEL SWYDDOG CYFRIFYDDU AR GYFER Y CWMNI A'U HARDYSTIAD

Datganiad o atebolrwydd a chyfrifoldebau Prif Weithredwr Adnodd Cyf fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cwmni

Mae'r gofynion cyfrifeg ac adrodd statudol ar gyfer Adnodd Cyf (**Adnodd**) fel is-gwmni sy'n eiddo llawn wedi'i gyfyngu drwy warant wedi'u nodi yn Neddf Cwmnïau 2006.

Mae'n ofynnol i'r cwmni baratoi, cymeradwyo, llofnodi a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n berthnasol i'w sector neu fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.

Rhaid i'r cyfrifon, sydd wedi eu paratoi ar sail gronedig, roi darlun cywir a theg o sefyllfa Adnodd, a chynnwys mantolen, cyfrif elw a cholled, adroddiad cyfarwyddwyr a datganiad o lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Adnodd gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a Deddf Cwmnïau 2006, ac yn benodol i:

- Cadw at ganllawiau a chyfarwyddyd cyfrifon a roddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cadw cyfrifon perthnasol a'r gofynion datgelu, a gweithredu polisïau cyfrifyddu addas sy'n eu cymhwyso yn gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu cadw at, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol a ganfuwyd yn y datganiad ariannol
- Adeiladu'r cyfrifon ar sail bod yn bryder parhaus, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd Adnodd yn parhau ar waith; a
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn cymryd cyfrifoldeb llawn am yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ac am y farn sy'n angenrheidiol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Fel is-gwmni cyfyngedig drwy warant sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, mae Adnodd yn gwbl atebol i Weinidogion Cymru. Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr y cwmni yn Swyddog Cyfrifo Adnodd.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifeg yn atebol amdano ac am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Adnodd, fel y nodir yn unol â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Datganiad gan Swyddog Cyfrifyddu Adnodd
Rwy'n cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn gyffredinol yn deg, cytbwys a dealladwy ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb llawn am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac am y dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

.....

Emyr George
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Adnodd

Dyddiad: 19 / 11 / 2024 .....

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

ADRODDIAD STRATEGOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 Mawrth 2024

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno'r adroddiad strategol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Cyflwyniad

Mae Adnodd Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig drwy warant, a Llywodraeth Cymru yw ei unig aelod. Mae'r cwmni'n derbyn cylch gwaith blynyddol, wedi'i bennu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Adolygiad Busnes

Sefydlwyd Adnodd yn dilyn penderfyniad yn 2022 gan Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, i ariannu corff hyd braich newydd a fyddai'n goruchwylio ac yn cydlynu'r ddarpariaeth adnoddau addysgol yn Gymraeg a Saesneg i gynorthwyo darparwyr addysg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau.

Cofrestrwyd Adnodd yn ffurfiol fel cwmni yn Nhŷ'r Cwmnïau yn 2022. Penodwyd bwrdd cyfarwyddwyr a chadeirydd ym mis Ebrill 2023 a secondiwyd dau aelod o staff o Lywodraeth Cymru'n wreiddiol i ddatblygu cynllun busnes a chefnogi'r gwaith gweithredol o sefydlu'r cwmni. Llofnodwyd y cynllun busnes hwn gan y bwrdd a chafodd ei gymeradwyo gan y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2023.

Cyhoeddwyd llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru i Adnodd ym Mawrth 2023, gan nodi cylch gwaith gweithredol y cwmni, ei flaenoriaethau strategol cyffredinol ar gyfer 2023 i 2026, ei amcanion penodol a'i ddyraniad cyllid ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddilynol.

Pum blaenoriaeth strategol y cwmni ar gyfer 2023 – 2026 yw i:

1. Datblygu amcanion corfforaethol Adnodd.

2. Sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol perthnasol ac amserol ar gael yn y Gymraeg a Saesneg, yr un pryd, i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau.

3. Darparu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer comisiynu, datblygu a chynhyrchu adnoddau, gan sicrhau bod adnoddau sy'n cael eu datblygu yn cyd-fynd ag ethos ac egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru a'u bod yn addas i'w diben.

4. Hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd effeithiol o adnoddau.

5. Datblygu a buddsoddi mewn sgiliau a chapasiti i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru.

Am y rhan fwyaf o flwyddyn ariannol 2023/24, bu Adnodd yn gweithredu gyda dau aelod o staff wedi'u secondio o Lywodraeth Cymru, gyda Chyfarwyddwyr Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi'u penodi fel eu swyddog cyfrifyddu dros dro. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd gweithrediadau ariannol Adnodd ar ei ran gan Lywodraeth Cymru, gyda'r gwariant a ysgwyddwyd yn cael ei anfonebu i Adnodd ei dalu.

Cymerodd fwy o amser na'r disgwyl i gyflawni'r gweithgareddau sefydlu cychwynnol, a arweiniodd at lai o wariant na'r gyllideb o £1.065 miliwn a oedd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd Adnodd i sicrhau gwerth am arian ar gyfer y gwariant a ysgwyddodd, gyda'r tanwariant a oedd yn weddill yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.

Hysbysebwyd swydd prif weithredwr yn ystod haf 2023 gyda phenodiad yn yr hydref. Dechreuodd y prif weithredwr newydd yn ei swydd yn Ionawr 2024.

Ym mis Ebrill 2023, penododd Llywodraeth Cymru gyflenwr cyfathrebu a marchnata, FOUR Cymru, i gefnogi'r broses o sefydlu Adnodd. Drwy weithio gyda'r cyflenwr, comisiynodd Adnodd Miller Research i weithio gyda rhanddeiliaid ar ymarfer cwmpasu o'r dirwedd adnoddau dysgu dwyieithog yng Nghymru. Cwblhawyd yr adroddiad cryno terfynol ym mis Mawrth 2024.

Yn Awst 2023, penododd Llywodraeth Cymru y cwmni ymgynghori masnachol, Curshaw, i gynorthwyo Adnodd i gaffael cyflenwyr ar gyfer eu gwasanaethau cymorth corfforaethol. Erbyn Mawrth 2024, roedd y cwmni wedi sicrhau cyflenwyr gwasanaethau ariannol, dyluniadau sefydliadol, cyngor cyfreithiol, yswiriant a chyfieithu.

Ym mis Mawrth 2024, cytunodd bwrdd cyfarwyddwyr Adnodd ar ddyluniad sefydliadol y cwmni a chymeradwyodd gynlluniau i ddechrau recriwtio ym mis Mai 2024.

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

ADRODDIAD STRATEGOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 Mawrth 2024

Rhagolwg

Bwriedir i Adnodd fod yn wasanaeth hawdd ei adnabod ‘o ddewis’ ar gyfer adnoddau addysgol dwyieithog yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar wasanaeth cyfartal ac amserol; sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer adnoddau; a datblygu sgiliau ac arbenigedd wrth greu adnoddau. Ni fydd Adnodd yn creu ac yn cyhoeddi adnoddau ei hun. Bydd yn gweithio gydag ac yn darparu cefnogaeth i ymarferwyr, darparwyr a chyflenwyr i sicrhau dull gweithredu strategol a chydlynol ar gyfer darparu adnoddau addysgol, sy’n addas i’r diben ac sydd wedi’u creu ar gyfer Cymru. Bydd Adnodd hefyd yn datblygu ac yn buddsoddi mewn sgiliau a chapasiti i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru.

Mae’r cwmni wedi gallu cynllunio rhaglen gyflenwi a fydd yn dechrau arddangos ei diben a’i gwerth yn gyflym, gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol lle mae’r angen mwyaf am adnoddau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar lythyr cyllido 2024/25. Bydd hyn yn galluogi’r cwmni i fwrw ymlaen â’i gynlluniau i recriwtio tîm o staff parhaol, i gwblhau ei waith i sefydlu rheolaethau a threfniadau llywodraethu a gweithredu cadarn, a chreu a gweithredu model comisiynu cynnar i sicrhau y bydd adnoddau addysgol newydd ar gael yn ystod 2024/25.

Risgiau a Rheoli

Mae rheolaeth y cwmni yn ddarostyngedig i nifer o risgiau - mae'r rhain wedi cael ei ystyried ymhellach yn adroddiad y cyfarwyddwyr. Mae'r bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd cael proses rheoli risg drylwyr, sy'n cynnwys adolygiad ffurfiol o'r holl risgiau a nodwyd. Mae prosesau ar waith i fonitro a lliniaru risgiau o'r fath. Bydd Adnodd yn parhau i ddatblygu ei weithgarwch rheoli risg a chraffu wrth i'r cwmni ddatblygu, i sicrhau ei fod yn ymateb i unrhyw risgiau sy'n codi yn unol ag arfer da a safonau llywodraethu.

Ar ran y bwrdd

.....
Emyr George
Cyfarwyddwr

Dyddiad: 19 / 11 / 2024

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Cyflwynir y datganiad llywodraethu corfforaethol ar dudalennau 6 a 7 yr adroddiad hwn.

Prif weithgareddau

Parhaodd prif weithgaredd y cwmni i ddarparu adnoddau addysgol a deunyddiau ategol o ansawdd uchel, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i gefnogi dysgu ac addysgu'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau.

Canlyniadau

Cyflwynir y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn o dudalen 10 ymlaen.

Mae datganiad ariannol y cwmni yn dangos bod £dim arian wrth gefn.

Mae Llywodraeth Cymru'n monitro perfformiad (yn fewnol ac allanol) yn erbyn y cylch gwaith ac mae'r cwmni'n darparu adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r broses fonitro hon.

Mae'n ofynnol i'r cwmni reoli ei berfformiad ariannol o fewn y gyllideb y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru a chyflwynir manylion pellach am hyn yn y llythyr cylch gwaith y cytunir arno'n flynyddol a dogfen fframwaith Adnodd.

Mae'r ddogfen fframwaith yn caniatáu i'r cwmni gario drosodd o un flwyddyn i'r llall unrhyw falansau arian parod a dynnwyd ond heb eu gwario o hyd at 2% o gyfanswm y gyllideb flynyddol gros y cytunwyd arni (fel y nodir yn y llythyr cylch gwaith a heb gynnwys incwm y bernir ei fod yn arian preifat). Mae'n ofynnol i unrhyw gynnig i gario symiau mwy na'r swm hwn drosodd gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24:

	£000oedd
Cyfanswm y gyllideb gros a gytunwyd	586
Cyllideb y cytunwyd i'w chario drosodd 2%	12
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth 2024	143
Asedau cyfredol – elfennau masnachol ac eraill derbyniadwy ar 31 Mawrth 2024	132
Rhwymedigaethau cyfredol – elfennau masnachol ac eraill taladwy ar 31 Mawrth 2024	(283)
Rhwymedigaethau net wedi'u haddasu ar 31 Mawrth 2024	(8)

Ni chadwyd unrhyw falans arian dros ben ar ddiwedd y flwyddyn.

Cyfrifir yr arian parod y ceir ei gario drosodd ar gyfer 2023/24 o £12,000 yn ddarbodus fel 2% o'r gyllideb a wariwyd yn y flwyddyn o £586k (sy'n is na'r gyllideb yn y llythyr cylch gwaith gwreiddiol).

Ar ôl cyfrifo'r arian parod a gynhelir ar ddiwedd 2023/24, gan ystyried balansau arian parod, asedau a rhwymedigaethau, roedd Adnodd yn cynnal £8,000 o rwymedigaethau net wedi'u haddasu ac felly mae'n cydymffurfio â'r terfyn arian parod o £12,000 a ganiateir gan Lywodraeth Cymru i'w gario drosodd.

Cyfarwyddwyr

Roedd y cyfarwyddwyr a oedd yn eu swydd yn ystod y Flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

Emyr George	(Penodwyd 8 Ionawr 2024)
Owain Gethin Davies (Cadeirydd)	
Huw Lloyd Jones	
Sioned Roberts	
Lucy Thomas	
Nicola Wood	
Owain Lloyd	(Ymddiswyddodd Rhagfyr 2023)
Lesley Bush	

Polisi talu cyflenwyr

Mae Adnodd yn ymrwymedig i dalu anfonebau a hawliadau eraill am daliadau yn brydlon. Yn achos nwyddau a gwasanaethau lle mae'r cyflenwad wedi'i gwblhau'n foddhaol, amcan y cwmni yw talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn yr anfoneb.

Mae'r cwmni yn cydnabod ei gyfrifoldebau amgylcheddol corfforaethol ac mae'n dymuno cyflawni'r rhain drwy leihau ei ôl-troed amgylcheddol, diddymu unrhyw ffynonellau llygredd a gweithio i leihau unrhyw effaith amgylcheddol niweidiol yn y ffordd mae'n caffael ei nwyddau a'i wasanaethau.

Mae Adnodd yn sicrhau, lle bynnag y bo'n briodol, bod cymwysterau cyflenwyr yn cael eu hystyried fel rhan o broses gwerthuso cyflenwyr ac y defnyddir meini prawf amgylcheddol wrth ddyfarnu contractau.

Mae Adnodd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflenwr arddangos eu hymrwymiad i:

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Offerynnau ariannol

Prif risgiau ac ansicrwydd

Y prif risg a wynebir gan y cwmni yw methiant i gyflenwi adnoddau yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, yn benodol mewn cysylltiad â'r cyrsiau TGAU diwygiedig sy'n dechrau o fis Medi 2025. Mae risg hefyd nad yw'r cwmni wedi'i sefydlu mewn pryd ar gyfer dechrau cyflawni canlyniadau pendant ym mlwyddyn academaidd 2024/25. I liniaru'r risg hon, mae bwrdd y cwmni wedi cytuno ar strwythur staffio. Mae hyn wedi'i ategu gan gynllun busnes a gweithredol manwl gydag amserlenni a cherrig milltir sydd wedi'u diffinio'n glir.

Amcanion a pholisïau rheoli risg ariannol

Y prif risgiau ariannol i'r cwmni yw rheoli a chyllidebu llif arian parod. Ar gyfer y ddwy risg, mae'r cwmni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cynnal balans arian parod iach i gyflawni ei ofynion gweithredol ac yn arfer rheolaeth gyllidebol gref. Yn dilyn trafodaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu Adnodd mai'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 fydd £1,630,338.

O ran rheoli llif arian parod, nid oes unrhyw risg credyd sylweddol ac mae'r cwmni wedi cynnal balans arian parod iach ar hyd y flwyddyn ariannol.

Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Datblygiadau yn y dyfodol

Mae cynllun busnes Adnodd ar gyfer 2024/25 a'r llythyr cylch gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cadarnhau mai incwm Llywodraeth Cymru fydd £1,630,338. Ar gyfer 2024/25, mae'r cwmni wedi pennu ystod o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar ffrydiau gwaith i sicrhau bod gan y gweithgarwch ffocws a'u bod yn cyd-fynd ag anghenion dysgwyr, athrawon a'r Cwricwlwm i Gymru.

Bydd Adnodd yn olrhain cynnydd yn erbyn ei gynllun gweithredol a'i gerrig milltir.

Adroddiad ynni a charbon

Mae'r cwmni'n cydnabod bod ei weithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd, drwy weithredoedd mewnol arferol a thrwy ei ddylanwad a'i effeithiau ar y gymuned ehangach. Mae'r cwmni'n cydnabod cyfrifoldeb am, ac ymrwymiad i, ddiogelu'r amgylchedd ar bob lefel. Bydd y cwmni'n cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth amgylcheddol ac yn ychwanegol mae'n ymrwymedig i ymdrechion parhaus i:

- Hyrwyddo polisïau ac arferion rheoli amgylcheddol
- Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau amgylcheddol ymysg ei staff a'i bartneriaid cydweithredol
- Lleihau gwastraff a llygredd a datblygu a gweithredu gweithdrefnau rheoli gwastraff sy'n amgylcheddol gadarn
- Parhau i leihau'r defnydd o danwyddau ffosil ac ymgorffori strategaethau tymor hir ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn gwaith cynllunio a datblygu
- Hyrwyddo polisi caffael a fydd yn rhoi blaenoriaeth, i'r graddau y bydd yn ymarferol, i'r cynhyrchion a gwasanaethau hynny sy'n creu'r niwed lleiaf i'r amgylchedd
- Osgoi, lle bynnag y bo'n ymarferol, y defnydd o sylweddau, deunyddiau a phrosesau sy'n niweidiol i'r amgylchedd
- Ystyried effeithiau o ran twf y cwmni, gan geisio lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol, i'r graddau y bydd yn bosibl, ac integreiddio datblygiadau newydd yn yr amgylchedd lleol
- A gweithio gydag asiantaethau lleol, cenedlaethol ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol, i hyrwyddo polisïau amgylcheddol

Ar ran y bwrdd

.....
Emyr George
Cyfarwyddwr

Dyddiad: 19 / 11 / 2024

Datganiadau Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol

Mae'r datganiad llywodraethu isod yn dwyn ynghyd, mewn un lle, yr holl ddatgeliadau am faterion yn ymwneud â risg a rheolaeth lywodraethu Adnodd. Rwy'n gyfrifol am y datganiad llywodraethu sy'n amlinellu sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb o gyfeirio a rheoli adnoddau'r cwmni ers fy mhenodi'n brif weithredwr a swyddog cyfrifyddu'r cwmni. Ar ôl cael fy mhenodi, derbyniais lythyr sicrwydd manwl gan Owain Lloyd yn cadarnhau ei fod, yn ystod ei gyfnod fel swyddog cyfrifyddu interim ar gyfer Adnodd (rhwng 1 Ebrill 2023 a 7 Ionawr 2024), wedi adolygu'r trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg yn y cwmni sy'n gyson â'i gyfrifoldebau fel swyddog cyfrifyddu interim.

Llywodraethu Corfforaethol

Llywodraethu corfforaethol yw'r system sy'n cyfeirio ac yn rheoli sefydliadau. Bwrdd y cwmni sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cwmni a'i gydymffurfiaeth â'r cod llywodraethu corfforaethol. Rôl y bwrdd yw bodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol ar waith i sicrhau, drwy'r prif weithredwr, bod y sefydliad yn gweithredu o fewn y fframwaith polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, roedd y bwrdd yn cynnwys y cadeirydd, 6 aelod parhaol a phrif weithredwr Adnodd. Mae'r swyddi ar y bwrdd yn swyddi â thâl.

Cynhaliodd y bwrdd gyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ystyried sefyllfa ariannol y cwmni ac unrhyw risgiau a materion a allai effeithio ar allu'r cwmni i gyflawni'r cylch gwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynhelir cofrestr o fuddiannau'r bwrdd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei nodi.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Yn dilyn penodi cadeirydd yn Chwefror 2023, sefydlwyd bwrdd Adnodd a chrëwyd is-bwyllgor i nodi risgiau posibl yn y cyfnod sefydlu ynghyd â'r hyn a fyddai'n dod yn weithgareddau busnes fel arfer. Mae gan y pwyllgor ei gylch gorchwyl ei hun i gyflawni ei gyfrifoldebau ac i gael y sicrwydd sydd ei angen i ddangos bod arferion llywodraethu da ar waith.

Mae Adnodd wedi derbyn gollyngiad ar gyfer y flwyddyn 2023/24 ac nid oes angen cynnal archwiliad mewnol/allanol oherwydd y lefel isel o weithgarwch yn ei gam cyflenwi cychwynnol. Caniatawyd hyn gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Phrif Gyfrifydd Llywodraeth Cymru, am y flwyddyn fasnachu gyntaf. Disgwylir i Adnodd gael ei archwilio ym mhob blwyddyn i ddod, a bydd datganiadau ariannol blwyddyn ariannol 2023/24 heb eu harchwilio yn cael eu paratoi a'u darparu i Lywodraeth Cymru i gefnogi adroddiadau Llywodraeth Cymru ar alldro adnoddau.

Mae holl waith y pwyllgor archwilio a risg (ARAC) yn cael ei adrodd i'r bwrdd drwy adroddiad llafar gan gadeirydd ARAC ym mhob cyfarfod y bwrdd.

Yr Uwch Dîm Rheoli

Gan fod Adnodd yn parhau i fod yn ei gyfnod cychwynnol, nid yw wedi recriwtio uwch dîm rheoli parhaol eto. Ar hyn o bryd mae'r tîm hwn yn cynnwys prif weithredwr, cyfarwyddwr interim (ar secondiad) a rheolwr gweithrediadau (hefyd ar secondiad). Bydd aelodau eraill o staff yn cael eu recriwtio yn ystod 2024/25.

Mae'r tîm hwn yn cwrdd â'r tîm partneriaeth o Lywodraeth Cymru bob pythefnos i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol a gweithredol. Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn, cynhelir cyfarfodydd chwarterol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd.

Gweithdrefnau'r Chwythu'r Chwiban

Mae Adnodd wedi comisiynu ei bartner adnoddau dynol i ddatblygu polisi chwythu'r chwiban. Mabwysiadwyd y polisi ar 23/11/23 a bydd angen ei adolygu ym mis Gorffennaf 2024. Cyflwynir hyn fel rhan o'r broses anwytho staff ac mae'r staff presennol yn ymwybodol o sut i gael mynediad at y polisi hwn. Ni dderbyniodd y cwmni unrhyw ddatgeliadau yn y flwyddyn.

Rheoli Risg

Y bwrdd sy'n gyfrifol am reoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau'r cwmni. Mae'r cwmni wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o'r risgiau mae'n eu hwynebu. Mae'r prif risgiau wedi'u cynnwys yng nghofrestr risgiau y cwmni sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y pwyllgor archwilio a risg a'r bwrdd.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i sefydlu a chynnal system sy'n ehangu o reolaethau mewnol, yn seiliedig ar broses barhaus a ddyluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol y cwmni a'u rheoli'n effeithiol, effeithlon a darbodus. Mae'r gofrestr risgiau yn nodi risgiau posibl sy'n deillio o sefydlu a gweithredu'r cwmni. Mae'r risgiau hyn yn cael eu blaenoriaethu mewn matrics risgiau ac mae proffil risg yn cael ei ddarparu ar effaith risg a'r tebygolrwydd o risg. Mae'r risgiau a'r sgorau risg hyn yn cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod ARAC a'u hadrodd i'r bwrdd ym mhob cyfarfod. Mae'r gofrestr risg yn cynnwys rhestr o'r holl fesurau ataliol ar gyfer pob un o'r risgiau a nodwyd a bod pob risg yn derbyn sgôr yn briodol. Mae'r broses rheolaeth fewnol yn addasu'n gyson ac yn tyfu gyda'r cwmni. Mae Adnodd yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori system gynhwysfawr o reolaethau mewnol ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Adnodd fel rhan o'i weithgareddau sefydlu parhaus. Dyluniwyd y system hon i weithredu ar lefel resymol a chymesur yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn llwyr i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol Adnodd. Felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Mae'r prif weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Penodir archwilwyr mewnol ac allanol yn 2024/25.

Mae Adnodd yn bwriadu comisiynu cyngor annibynnol o bryd i'w gilydd i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu'r strwythurau llywodraethu a rheoli mwyaf priodol sydd eu hangen i fynd i'r afael â gofynion gweithredol.

Rydym yn fodlon, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, bod fframwaith a system llywodraethu a system o reolaethau mewnol cymesur a chadarn wedi bod ar waith. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn a bydd hyn yn dechrau o ddifri yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r rheolaethau sydd ar waith wedi cynorthwyo i gyflawni nodau ac amcanion y cwmni, hwyluso ymarfer swyddogaethau'r cwmni yn effeithiol, a diogelu arian ac asedau cyhoeddus. Mae'r materion llywodraethu a rheolaeth hyn yn unol â'r cyfrifoldebau yn nogfen fframwaith Adnodd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ar ran y bwrdd

.....
Emyr George
Cyfarwyddwr

Dyddiad: 19 / 11 / 2024

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)
ADRODDIAD Y CYFRIFWYR I'R BWRDD CYFARWYDDWYR AR BARATOI DATGANIADAU ARIANNOL STATUDOL HEB EU HARCHWILIO ADNODD CYFYNGEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

I'ch cynorthwyo i gyflawni eich dyletswyddau o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, rydym wedi paratoi datganiadau ariannol Adnodd Cyfyngedig ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 ar gyfer eich cymeradwyaeth, sy'n cynnwys y datganiad incwm, y datganiad sefyllfa ariannol, y datganiad o newidiadau mewn ecwiti, y datganiad llif arian a'r nodiadau cysylltiedig o gofnodion cyfrifo'r cwmni ac o'r wybodaeth a'r esboniadau rydych wedi'u rhoi i ni.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i fwrdd cyfarwyddwyr Adnodd Cyfyngedig yn unig, fel corff, yn unol â thelerau ein llythyr ymgysylltu dyddiedig 10 Ebrill 2024. Cynhaliwyd ein gwaith ar gyfer paratoi datganiadau ariannol Adnodd Cyfyngedig yn unig ar gyfer eich cymeradwyaeth a nodi'r materion hynny rydym wedi cytuno i'w datgan i fwrdd cyfarwyddwyr Adnodd Cyfyngedig, fel corff, yn yr adroddiad hwn yn unol â Datganiad Technegol 07/16 AFF ICAEW. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un ar wahân i Adnodd Cyfyngedig a'i fwrdd cyfarwyddwyr fel corff, am ein gwaith na'r adroddiad hwn.

Mae'n ddyletswydd arnoch i sicrhau bod Adnodd Cyfyngedig wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol ac i baratoi datganiadau ariannol statudol sy'n cyflwyno barn gywir a theg o'r asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a chanlyniad Adnodd Cyfyngedig. Rydych yn ystyried bod Adnodd Cyfyngedig wedi'i eithrio o'r gofyniad archwilio statudol am y Flwyddyn.

Nid ydym wedi ein cyfarwyddo i gynnal archwiliad neu adolygiad o ddatganiadau ariannol Adnodd Cyfyngedig. Am y rheswm hwn, nid ydym wedi dilysu cywirdeb neu gyflawnrwydd y cofnodion neu wybodaeth gyfrifyddu a'r esboniadau rydych wedi'u rhoi i ni ac felly nid ydym yn mynegi unrhyw farn ar y datganiadau ariannol statudol.

Azets

.....

Dyddiad:.....

Tŷ Derw
Lime Tree Court
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
Cymru
CF23 8AB

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)
DATGANIAD INCWM

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

	Nodiadau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 £	Y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 £
Refeniw	**2**	586,315	-
Cost gwerthiannau		(4,999)	-
Elw gros		581,316	-
Treuliau gweinyddol		(581,316)	-
Elw gweithredol	**3**	-	-
Treuliau treth incwm		-	-
Cyfanswm yr elw ac incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		-	-

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)
DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL

AR 31 MAWRTH 2024

	Nodiadau	2024 £	2023 £
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	**6**	8,533	-
Asedau cyfredol			
Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy	**7**	634,423	-
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo		132,233	-
		766,656	-
Rhwymedigaethau cyfredol			
Elfennau masnach ac eraill taladwy	**8**	775,189	-
Rhwymedigaethau cyfredol net		(8,533)	-
Asedau net		-	-
Ecwiti			
Cyfalaf cyfranddaliadau a alwyd i fyny		-	-

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo a'u hawdurdodi gan y bwrdd cyfarwyddwyr ar....16 / 09 / 2024... ac maent yn cael eu llofnodi ar ei ran gan:

.....
Emyr George
Cyfarwyddwr

Rhif cofrestru cwmni 14227941

ADNODD CYFYNGEDIG (CYFYNGEDIG DRWY WARANT)
DATGANIAD O NEWIDIADAU MEWN ECWITI
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

	Cyfalaf cyfranddaliadau £
Balans ar 12 Gorffennaf 2022	-
Y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023:	
Balans ar 31 Mawrth 2023	-
Y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024:	
Balans ar 31 Mawrth 2024	-

ADNODD CYFYNGEDIG
(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)
DATGANIAD LLIF ARIAN

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

	Nodiadau	2024 £	2024 £	2023 £	2023 £
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu					
Arian parod a gynhyrchir o/(a amsugnwyd gan) weithrediadau	**12**		145,033		-
Mewnlif /(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu			145,033		-
Gweithgareddau buddsoddi					
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar		(12,800)		-	
Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi			(12,800)		-
Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo			132,233		-
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn			-		-
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn			132,233		-

ADNODD CYFYNGEDIG (CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

1 Polisïau Cyfrifo

Gwybodaeth am y Cwmni

Mae Adnodd Cyfyngedig yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr. Y swyddfa gofrestredig yw D/O Darwin Gray LLP, Tŷ Avalon, 9 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9HA. Datgelir prif weithrediadau'r cwmni a natur ei weithrediadau yn adroddiad y cyfarwyddwyr.

1.1 Cyfnod adrodd

Paratowyd cyfrifon y flwyddyn flaenorol am gyfnod byrrach o 8 mis, o'r dyddiad ymgorffori hyd 31 March 2023. Gwnaed y penderfyniad i leihau'r cyfnod i'r dyddiad hwn gan y Bwrdd er mwyn alinio cyfnod adrodd y cwmni gyda chyfnod adrodd Llywodraeth Cymru. Roedd y cwmni yn Segur yn y cyfnod blaenorol ac fel y cyfryw, y ffigurau cymharol oedd Dim.

1.2 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu mabwysiadu i'w defnyddio yn y Deyrnas Unedig a'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n adrodd yn unol ag IFRS, oni nodir fel arall.

Paratowyd y datganiadau ariannol mewn sterling, sef arian cyfred swyddogaethol y cwmni. Mae symiau ariannol yn y datganiadau ariannol hyn wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nodir y prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd isod.

1.3 Busnes gweithredol

Ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, roedd gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y cwmni adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Felly mae'r cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

1.4 Refeniw

Cydnabyddir refeniw fel a ganlyn:

<u>Incwm i'w dderbyn gan Lywodraeth Cymru</u>

Cydnabyddir incwm yn y flwyddyn y derbynnir yr incwm yn unol â'r llythyr cylch gwaith sy'n amlinellu'r cyllid ar gyfer y cyfnod at 31 Mawrth bob blwyddyn fel arfer.

1.5 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mesurir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar gost i ddechrau ac wedi hynny ar gost neu werthusiad, net o ddibrisiant ac unrhyw golledion oherwydd amhariad.

Mae dibrisiant yn cael ei gydnabod er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y seiliau canlynol:

Cyfrifiaduron	llinell syth 3 blynedd

Pennir yr elw neu'r golled sy'n deillio o waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng derbyniadau'r gwerthiant a gwerth cario'r ased, ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad incwm.

1.6 Amhariad ar asedau diriaethol ac anniriaethol

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, mae'r cwmni'n adolygu'r symiau o'i asedau diriaethol i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad. Os bydd arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased er mwyn penderfynu ar raddau'r golled amhariad (os o gwbl). Pan na fydd yn bosibl amcangyfrif swm adenilladwy ased unigol, mae'r cwmni'n amcangyfrif swm adenilladwy'r uned sy'n cynhyrchu arian parod y mae'r ased yn perthyn iddo.

1 Polisïau Cyfrifyddu (Parhad)

Swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg llai costau gwerthu a gwerth defnyddio. Wrth asesu gwerth mewn defnydd, mae'r llif arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn cael ei ddisgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau marchnad cyfredol o werth amser arian a'r risgiau sy'n benodol i'r ased nad yw amcangyfrifon llif arian yn y dyfodol wedi'u haddasu ar eu cyfer.

Os amcangyfrifir bod swm adenilladwy ased (neu uned sy'n cynhyrchu arian parod) yn llai na'i swm cario ymlaen, bydd swm cario ymlaen yr ased (neu uned sy'n cynhyrchu arian parod) yn cael ei leihau i'w swm adenilladwy. Cydnabyddir colled amhariad ar unwaith fel elw neu golled, oni fydd yr ased perthnasol yn cael ei gario ar swm wedi'i ailbrisio, ac yn yr achos hwnnw bydd y golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio.

Pan fydd colled amhariad yn gwrthdroi wedi hynny, cynyddir swm cario'r ased (neu'r uned sy'n cynhyrchu arian parod) i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adenilladwy, ond fel nad yw'r swm cario uwch yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe ni chydnabuwyd unrhyw golled amhariad ar gyfer yr ased (neu'r uned cynhyrchu arian) mewn blynyddoedd blaenorol. Cydnabyddir gwrthdroad colled amhariad ar unwaith mewn elw neu golled, oni bai bod yr ased perthnasol yn cael ei gario ar swm wedi'i ailbrisio, ac os felly bydd gwrthdroi'r golled amhariad yn cael ei drin fel cynnydd ailbrisio.

1.7 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon ar alwad gyda banciau, buddsoddiadau hylifol tymor byr eraill gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc. Dangosir gorddrafftiau banc o fewn benthyciadau mewn rhwymedigaethau cyfredol.

1.8 Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol yn natganiad sefyllfa ariannol y cwmni pan ddaw'r cwmni'n rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offeryn. Dosberthir asedau ariannol i gategorïau penodol, yn dibynnu ar natur a diben yr asedau ariannol.

Ar y cam cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu fel gwerth teg drwy elw a mesurir colledion ar werth teg a chydnabyddir unrhyw gostau trafod fel elw neu golled. Nid yw asedau ariannol yn cael eu dosbarthu fel gwerth teg drwy elw a mesurir colled i ddechrau ar werth teg yn ogystal â'r costau trafod.

Asedau ariannol ar werth teg drwy elw neu golledion

Pan na chyflawnir unrhyw rai o'r amodau uchod ar gyfer dosbarthu asedau ariannol yn cael eu cyflawni, bydd ased ariannol yn cael ei ddosbarthu fel ased wedi'i fesur ar werth teg drwy elw neu golled. Mae asedau ariannol sydd wedi'u mesur ar eu gwerth teg drwy elw neu golled yn cael eu cydnabod i ddechrau fel gwerth teg ac mae unrhyw gostau trafod yn cael eu cydnabod fel elw neu golled sy'n cael eu hysgwyddo. Mae elw neu golled ar ased ariannol wedi'i fesur ar ei werth teg drwy elw neu golled yn cael ei gydnabod fel elw neu golled ac mae wedi'i gynnwys o fewn incwm neu gostau cyllid yn y datganiad o incwm ar gyfer y cyfnod adrodd y bydd yn codi.

Asedau ariannol a ddelir ar gost amorteiddiedig

Rhestrir offerynnau ariannol fel asedau ariannol a fesurir ar gost amorteiddiedig, pan mai'r amcan yw dal yr asedau hyn er mwyn casglu llifoedd arian cytundebol, a thaliadau prifswm a llog yn unig yw'r llifoedd arian cytundebol. Maent yn codi'n bennaf o ddarparu nwyddau a gwasanaethau i gwsmeriaid (e.e. symiau masnach derbyniadwy). Cânt eu cydnabod i ddechrau ar werth teg ynghyd â chostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w caffael neu eu cyhoeddi, ac yn dilyn hynny cânt eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, llai darpariaeth ar gyfer amhariad lle bo angen.

1 Polisïau Cyfrifyddu (Parhad)

Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Mae offerynnau dyled yn cael eu rhestru fel asedau ariannol a fesurir ar werth teg trwy incwm cynhwysfawr arall lle cedwir yr asedau ariannol o fewn model busnes y cwmni y cyflawnir ei amcan trwy gasglu llif arian cytundebol a gwerthu asedau ariannol, ac mae telerau cytundebol yr ased ariannol yn arwain at, ar ddyddiadau penodedig, llifoedd arian parod sy'n daliadau prif swm a llog ar y prif swm sy'n ddyledus yn unig.

Mae offeryn dyled a fesurir ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall yn cael ei gydnabod i ddechrau ar werth teg ynghyd â chostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased. Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff pob ased ei fesur ar werth teg, gyda newidiadau mewn gwerth teg wedi'u cynnwys mewn incwm cynhwysfawr arall. Mae elw neu golledion cronedig a gydnabyddir trwy incwm cynhwysfawr arall yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i elw neu golled pan fydd yr offeryn dyled yn cael ei ddad-gydnabod.

Mae'r cwmni wedi gwneud dewis di-alw'n-ôl i gydnabod newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti drwy incwm cynhwysfawr arall, nid drwy elw neu golled. Bydd ennill neu golled o newidiadau gwerth teg yn cael ei ddangos mewn incwm cynhwysfawr arall ac ni chaiff ei ailddosbarthu wedyn i elw neu golled. Mae offerynnau ecwiti a fesurir ar werth teg trwy incwm cynhwysfawr arall yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg ynghyd â chost trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased. Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff pob ased ei fesur ar werth teg, gyda newidiadau mewn gwerth teg wedi'u cynnwys mewn incwm cynhwysfawr arall. Mae elw neu golledion cronedig a gydnabyddir trwy incwm cynhwysfawr arall yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i enillion argadwedig pan fydd yr offeryn ecwiti yn cael ei ddad-gydnabod neu pan fydd ei werth teg yn gostwng yn sylweddol. Caiff difidendau eu cydnabod fel incwm cyllid mewn elw neu golled.

Amhariad ar asedau ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu cario ar gost amorteiddiedig ac mae FVOCI yn cael eu hasesu ar gyfer dangosyddion amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Amcangyfrifir y colledion credyd disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r asedau hyn ar sail sy'n edrych i'r dyfodol. Ystyrir ystod eang o wybodaeth wrth asesu risg credyd a mesur colledion credyd disgwyliedig, gan gynnwys digwyddiadau yn y gorffennol, amodau cyfredol a rhagolygon rhesymol y gellir eu cefnogi sy'n effeithio ar y posibilrwydd o gasglu llif arian yr offeryn yn y dyfodol.

Dad-gydnabod asedau ariannol

Bydd asedau ariannol ond yn cael eu dad-gydnabod pan fydd yr hawliau cytundebol i'r llifoedd arian parod o'r ased yn dod i ben, neu pan fydd yn trosglwyddo'r ased ariannol ac yn sylweddol holl risgiau a gwobrau perchnogaeth i endid arall.

1.9 Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r cwmni yn cydnabod dyled ariannol pan fydd y cwmni'n dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offerynnau. Mae rhwymedigaethau ariannol naill ai'n cael eu dosbarthu fel 'rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw neu golled' neu 'rwymedigaethau ariannol eraill'.

Rhwymedigaethau ariannol eraill

Mae rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau, symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau ariannol tymor byr eraill, yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg net o gostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gyhoeddi'r rhwymedigaeth ariannol. Cânt eu mesur wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. At ddibenion pob rhwymedigaeth ariannol, mae costau llog yn cynnwys costau trafodion cychwynnol ac unrhyw bremiwm sy'n daladwy wrth adbrynu, yn ogystal ag unrhyw log neu gwpon sy'n daladwy tra bo'r rhwymedigaeth yn ddyledus.

Dad-gydnabod rhwymedigaethau ariannol

Bydd rhwymedigaethau yn cael eu dad-gydnabod pan fydd, a dim ond pan fydd ymrwymiadau'r cwmni'n cael eu dad-gydnabod, eu canslo neu'n dod i ben.

1 Polisïau Cyfrifyddu (Parhad)

1.10 Buddiannau cyflogeion

Darperir buddion ymddeoliad gweithwyr y cwmni gan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun pensiwn sector cyhoeddus buddion diffiniedig ar gyfer gweision sifil.

Mae PCSPS yn gynllun pensiwn cyhoeddus statudol nas ariennir. Mae cyfraniadau i'r PCSPS yn cael eu codi ar yr incwm a'r gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr gydag Adnodd yn y fath fodd fel bod costau pensiwn yn ganran sylweddol wastad o'r gyflogres bensiynadwy yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r PCSPS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw Adnodd yn gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun yn gyson. Mae'r PCSPS felly'n cael ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a'r cyfraniadau'n cael eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fydd y gweithwyr yn darparu'r gwasanaethau.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2020 gyda'r manylion llawn yn cael eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau Adran Actiwari'r Llywodraeth (www.civilservicepensionscheme.org.uk).

2 Refeniw

	2024	2023
	£	£
Refeniw a ddadansoddwyd yn ôl dosbarth busnes		
Incwm gan Lywodraeth Cymru	586,315	-

3 Elw gweithredol

Nodir yr elw gweithredol ar gyfer y cyfnod ar ôl codi tâl /(credydu):	2024 £	2023 £
Dibrisiant eiddo, peiriannau a chyfarpar	4,267	-

4 Cyflogeion

Nifer misol cyfartalog y bobl (gan gynnwys cyfarwyddwyr) a gyflogwyd gan y cwmni yn ystod y Flwyddyn oedd:

	Nifer 2024	Nifer 2023
Cyflogeion (gan gynnwys secondeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol)	10	6

Roedd eu tâl cyfanredol yn cynnwys:

	2024 £	2023 £
Cyflogau	186,649	-
Costau nawdd cymdeithasol	2,993	-
Costau pensiwn	6,790	-
	196,432	-

Wedi'i gynnwys o fewn y costau cyflogeion uchod mae £150,634 sy'n gysylltiedig â chostau i'w hail godi gan Lywodraeth Cymru am staff a secondiwyd i Adnodd yn ystod y flwyddyn.

5 Tâl Cyfarwyddwyr

	2024	2023
	£	£
Tâl am wasanaethau cymwys	36,015	-
Cyfraniadau pensiwn y cwmni i gynlluniau cyfraniad diffiniedig	6,790	-
	42,805	-

Mae tâl cyfarwyddwyr yn cynnwys cyflog, cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn ac mae wedi'i gynnwys yn y datgeliadau cyflogau uchod.

6 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

	Cyfrifiaduron
	£
Cost	
Ar 12 Gorffennaf 2022 ac 1 Ebrill 2023	-
Ychwanegiadau	12,800
Ar 31 Mawrth 2024	12,800
Dibrisiant ac amhariad cronedig	
Ar 12 Gorffennaf 2022 ac 1 Ebrill 2023	-
Tâl am y Flwyddyn	4,267
Ar 31 Mawrth 2024	4,267
Swm cario	
Ar 31 Mawrth 2024	8,533

7 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

	2024	2023
	£	£
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	634,423	-

Wedi'i gynnwys yn y rhagdaliadau ac incwm cronedig mae balans o £142,938 o incwm cronedig sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gwariant sy'n gysylltiedig â blwyddyn ariannol 2023/24 a nodwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Hefyd wedi'i gynnwys yn y balans hwn mae gwerth y gyllideb a ddyfarnwyd i Adnod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol ond nad yw wedi'i dynnu i lawr, sef cyfanswm o £491,484. Dangosir balans gwrthbwyso gyda chredydwyr eraill - gweler nodyn 8.

8 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

	2024	2023
	£	£
Symiau masnach taladwy	32,975	-
Croniadau	236,316	-
Nawdd cymdeithasol a threthiant arall	10,929	-
Symiau eraill taladwy	494,969	-
	775,189	-

Wedi'i gynnwys yn y croniadau mae balans o £198,763 sy'n gysylltiedig â symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru a nodwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Wedi'i gynnwys mewn credydwyr eraill mae balans o £491,484 sy'n gysylltiedig â'r gyllideb a ddyfarnwyd ond ni thynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn ariannol. Dangosir balans gwrthbwyso o fewn incwm cronedig - gweler nodyn 7.

9 Cynlluniau buddion ymddeol

	2024	2023
Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig	£	£
Tâl i elw neu golled mewn perthynas â PCSPS	6,790	-

Mae Adnodd yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Unig rwymedigaeth y cwmni yw talu'r cyfraniadau wrth iddynt ddod yn ddyledus ac os bydd y cwmni'n rhoi'r gorau i gyflogi aelodau o'r cynllun, ni fydd unrhyw rwymedigaeth arnynt i dalu unrhyw gyfraniadau pellach i dalu'r diffyg yn erbyn cost buddion a enillwyd gan ei weithwyr ei hun mewn cysylltiad â blynyddoedd blaenorol. Felly, mae'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig at ddibenion FRS 101 ac mae'n cael ei gyfrifo fel y cyfryw gan Adnodd.

10 Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Adnodd yn is-gwmni a reolir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru ac felly mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y cwmni incwm o £586,315.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd y balans a oedd yn ddyledus i'r cwmni gan Lywodraeth Cymru yn £dim.

Yn ystod y flwyddyn, ni chynhaliodd Adnodd unrhyw drafodion gyda sefydliadau y mae'r cyfarwyddwyr wedi datgan buddiant ynddynt. Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus i'r sefydliadau hyn nac oddi wrthynt ar ddyddiad y fantolen.

11 Y parti â rheolaeth

Llywodraeth Cymru sydd â rheolaeth yn y pen draw dros y cwmni, fel yr unig aelod.

12 Arian parod a gynhyrchwyd gan/(amsugnwyd gan) weithrediadau

	2024 £	2023 £
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisiant ac amhariad eiddo, peiriannau a chyfarpar	4,267	-
Symudiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Cynnydd mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	(634,423)	-
Cynnydd mewn masnach a symiau taladwy eraill	775,189	-
Arian parod a gynhyrchwyd gan/(amsugnwyd gan) weithrediadau	145,033	-